PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

CATEGORÏAU O FLAENORIAETH AM LEOEDD MEWN LLETY A REOLIR GAN Y BRIFYSGOL ar gyfer 2011/12

Mae gan Brifysgol Aberystwyth un o'r cymarebau uchaf yn y Deyrnas Unedig o ran y llety sydd ar gael i'w myfyrwyr, ond er hynny nid yw'n ymarferol bosibl gosod pob myfyriwr sydd am gael lle mewn llety a reolir gan y Brifysgol. Cynlluniwyd y categorïau o flaenoriaeth canlynol i sicrhau ein bod yn gweithredu polisi gosod cyson a theg. Dylid nodi bod y categorïau canlynol yn cyfeirio at fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru gyda Phrifysgol Aberystwyth.

MAE'R CATEGORÏAU CANLYNOL O FYFYRWYR YN CAEL GWARANT O LE AR GYFER POB SESIWN ACADEMAIDD <u>DRWY GYDOL</u> EU HASTUDIAETHAU

- Myfyrwyr tramor sy'n talu ffioedd (israddedig ac uwchraddedig).
- Deiliaid Ysgoloriaethau Mynediad a Bwrsariaethau Chwaraeon.
- Myfyrwyr a oedd dan ofal Awdurdod Lleol pan oeddent yn 16 oed a/neu'n union cyn cychwyn ym Mhrifysgol Aberystwyth.

MAE'R CATEGORÏAU CANLYNOL O FYFYRWYR YN CAEL GWARANT O LE AR GYFER SESIWN ACADEMAIDD BLWYDDYN GYNTAF EU CWRS YN ABERYSTWYTH

- Israddedigion neu fyfyrwyr HND amser llawn newydd, sy'n byw yn y Deyrnas Unedig/ Undeb Ewropeaidd, ac sy'n dilyn cynlluniau astudio sy'n arwain at gymwysterau yn y Brifysgol.
- Uwchraddedigion newydd sy'n byw yn y Deyrnas Unedig/Undeb Ewropeaidd. Mae profiad wedi dangos bod y rhan fwyaf o uwchraddedigion o'r Deyrnas Unedig/ Undeb Ewropeaidd yn hapus i drefnu'u llety eu hunain, gyda chymorth y Swyddfa Llety, yn y sector preifat.
- Myfyrwyr cyfnewid lle mae Aberystwyth dan gytundeb i ddarparu llety yn gyfnewid am y myfyrwyr o Aberystwyth sy'n cael eu lletya gan y Brifysgol arall.
- Myfyrwyr ar ymweliadau nad ydynt yn dilyn cynlluniau astudio sy'n arwain at gymwysterau Prifysgol Aberystwyth, ac sy'n talu'r ffioedd dysgu priodol (ar raddfa *pro rata* fel y bo'n briodol).
- Myfyrwyr sy'n dychwelyd wedi iddynt dynnu'n ôl dros dro neu o gyfnod o absenoldeb i ailgychwyn ar eu blwyddyn gyntaf.

NID ELLIR GWARANTU Y BYDD Y CATEGORÏAU CANLYNOL O FYFYRWYR YN CAEL LLETY. CYNIGIR LLETY IDDYNT YN UNIG OS OES LLEFYDD AR GAEL

- Myfyrwyr Erasmus/ Socrates yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

    1 Myfyrwyr sy'n cychwyn ar eu hastudiaethau yn yr ail semester.

    2 Myfyrwyr ar gwrs sy'n para 2 semester yn unig

3 Myfyrwyr sy'n cychwyn ar eu hastudiaethau yn y semester cyntaf.

- Myfyrwyr rhan –amser sydd wedi'u cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn cynnwys myfyrwyr sy'n ailsefyll arholiadau yn allanol.

- Myfyrwyr sy'n dychwelyd:

  Rhoddir blaenoriaeth i israddedigion sy'n cychwyn ar eu blwyddyn olaf, ac unrhyw Uwchraddedigion sy'n dychwelyd, ar sail 'y cyntaf i'r felin gaiff falu', yn amodol ar y llety sydd ar gael.

MYFYRWYR AG ANGHENION ARBENNIG

Gwneir pob ymdrech i osod myfyrwyr ag **anghenion arbennig** mewn llety addas, ar sail unigol, beth bynnag yw eu safle yn y categorïau isod.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach am lety ar gyfer pobl ag anghenion arbennig yn:

http://www.aber.ac.uk/residential/en/accomodation/disabilities.shtml

DYDDIADAU CAU CEISIADAU AM LETY

Ceir manylion llawn am ddyddiadau cau'n ymwneud â llety Prifysgol Aberystwyth ar y wefan ganlynol: <http://www.aber.au.uk/residential/en/accommodation/guarantees.shtml

Mae'r ddogfen yn cael ei hadolygu bob blwyddyn.

HMD/ET/DK: 12/05/2010